Inspecting policing in the public interest

# Ymateb Heddlu Gwent i'r her cyllid

Gorffennaf 2013

ISBN: 978-1-78246-218-7
© HMIC 2013

# Heddlu Gwent: Crynodeb gweithredol

Mae Heddlu Gwent yn wynebu her anodd. Er bod ganddo gyllid uwch na'r cyfartaledd y pen o'r boblogaeth, mae ganddo ddaearyddiaeth amrywiol gyda phocedi o alw uchel mewn ardaloedd trefol; ac fel heddlu bychan mae'r cyfleoedd i sicrhau arbedion maint yn brin. Fodd bynnag, mae wedi datblygu rhaglen newid fanwl i leihau costau wrth barhau i frwydro yn erbyn troseddu.

Daw ymadawiad diweddar y Prif Gwnstabl â lefel o ansefydlogrwydd ar gyfnod allweddol i'r heddlu. Mae HMIC angen sicrwydd na fydd hyn yn creu bwlch arweinyddiaeth mewn cyfnod pan mae'r heddlu yn rheoli newid ac yn datblygu ei ddyfodol i baratoi ar gyfer llymder parhaus ac i ddarparu cymunedau diogelach i bobl Gwent.

## Her ariannol

Mae Heddlu Gwent wedi nodi ei fod angen arbed £23.5miliwn dros bedair blynedd yr adolygiad o wariant (h.y. rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015).

Fel cyfran o'i gyllideb gyffredinol (17%), mae'r gofyniad cynilo hwn yn gyffredinol yn unol â'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Fodd bynnag, mae HMIC yn ystyried fod Heddlu Gwent yn wynebu ardal blismona heriol gydag ardaloedd o alw crynodedig a chymunedau gwasgaredig mewn ardaloedd gwledig.

## Cynnydd ar sicrhau arbedion

Mae Heddlu Gwent wedi cynllunio sut y bydd yn arbed £22.9miliwn. Felly mae angen canfod £0.6miliwn[1] eto. Nid oedd gan yr heddlu unrhyw gynlluniau pendant o ran sut i bontio'r bwlch hwn, ond mae ei brofiad o sicrhau'r arbedion hyd yn hyn yn golygu ei fod yn disgwyl llenwi'r bwlch trwy orgyflawni ar ei gynllun arbedion presennol a thanwario yn y ddwy flynedd sy'n weddill.

## Newidiadau i'r gweithlu

Rhaid i bob heddlu wario'r rhan fwyaf o'u harian ar gostau staff (megis cyflogau a goramser), ac felly mae wedi canolbwyntio ar leihau'r gwariant hwn er mwyn lleihau costau.[2] Nid yw Heddlu Gwent yn eithriad.

Mae'r heddlu yn lleihau niferoedd swyddogion yr heddlu trwy gyfyngu ar recriwtio a chadw swyddi'n wag; o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant, rhagwelir y bydd gan yr heddlu 88 yn llai o swyddogion. Mae hyn yn golygu y bwriedir i nifer swyddogion yr heddlu leihau o 6% rhwng Mawrth 2010[3] a Mawrth 2015; mae hyn yn lleihad llai na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill.

---

1 Efallai na fydd y symiau i'w harbed yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.
2 *Gweler Adapting to Austerity*, HMIC, Llundain, Gorffennaf 2011, t13. Ar gael gan www.hmic.gov.uk.
3 Rydym yn defnyddio 2010 fel ein llinell sylfaen gan i nifer o heddluoedd ddechrau lleihau staff gan ragweld yr adolygiad o wariant.

Bydd Heddlu Gwent yn diogelu swyddi rheng flaen yn gyffredinol wrth wneud y toriadau hyn: rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015, bwriedir i'r gyfran o swyddogion yr heddlu mewn rolau brwydro troseddau rheng flaen leihau o 93% i 92%. Mae hyn yn cymharu â chynnydd cyffredinol ledled Cymru a Lloegr o 89% i 93%. Fodd bynnag, mae'r heddlu yn elwa o 101 o swyddogion cymorth cymunedol (cyfatebol i ran amser) a ariennir gan swyddogion cymorth cymunedol Llywodraeth Cymru.

Mae'r heddlu hefyd wedi diswyddo rhai o staff yr heddlu ac wedi cadw rhai swyddi yn wag wrth iddynt adael (e.e. trwy ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau); ac o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant, bydd gan yr heddlu 111 yn llai o staff heddlu. Mae hyn yn golygu y bydd nifer staff yr heddlu yn lleihau o 14% rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015, er bod hyn yn llai na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Mae heddlu Gwent yn bwriadu cynyddu'r nifer o swyddogion cymorth cymunedol o 72%, o gymharu â lleihad yn y rhan fwyaf o heddluoedd eraill.

## Effaith ar y cyhoedd

Mae HMIC yn disgwyl sicrhau arbedion heb niweidio'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd. Rydym yn monitro a ydynt yn cyflawni hyn trwy archwilio cyfraddau troseddau a chanlyniadau'r arolygon boddhad dioddefwyr y mae'r holl heddluoedd yn eu cwblhau.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf yr adolygiad o wariant, gostyngodd troseddau a gofnodwyd[4] (ac eithrio twyll) o 24%, sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr (13%). Mae boddhad dioddefwyr yn parhau i fod yn uchel ar 81.4%[5] er bod hyn yn is nag mewn heddluoedd eraill.

## Heriau yn y dyfodol

Mae Heddlu Gwent wedi sicrhau cynnydd da o ran bodloni ei her ariannol ac wedi datblygu rhaglen newid manwl a fydd yn ei alluogi i leihau costau tra'n parhau i frwydro troseddau.

Daw ymddiswyddiad diweddar y Prif Gwnstabl ag elfen o ansefydlogrwydd yn ystod cyfnod pwysig i'r heddlu. Gallai blwch arweinyddiaeth gael effaith ar baratoadau ar gyfyngiadau i'r gyllideb a pherfformiad yr heddlu yn y dyfodol.

Mae Rhaglen Gwerth yr Heddlu (Valuing the Police) HMIC wedi olrhain sut mae heddluoedd yn bwriadu gwneud arbedion i fodloni'r galw cyllidebol hwn pob blwyddyn

4 Troseddau ac eithrio twyll, yn unol â'r dosbarthiadau newydd a ryddhawyd yng Ngorffennaf 2013 yng nghyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
5 ± 1.9%

# Casgliadau

Yn asesiad HMIC, mae Heddlu Gwent yn wynebu her anoddach i arbed arian a chwrdd â galwadau plismona na rhai heddluoedd eraill, ond mae wedi sicrhau cynnydd da o ran datblygu cynlluniau arbedion a rhaglen newid fanwl, a fydd yn ei alluogi i leihau costau tra'n parhau i frwydro troseddau.

Dechreuodd yr heddlu ail-lunio'r sefydliad yn gynnar ac mae wedi cofleidio lefel arwyddocaol o newid ac wedi mynd â'i weithlu gydag ef. Fodd bynnag, daw ymadawiad diweddar y Prif Gwnstabl ag elfen o ansefydlogrwydd ar gyfnod allweddol i'r heddlu. Mae yna risg y bydd hyn yn creu bwlch arweinyddiaeth mewn cyfnod pan mae angen i'r heddlu gyfnerthu cyflawniad y rhaglen newid yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant hwn ac i ddatblygu rhaglen waith newydd i wynebu heriau yn y dyfodol.

Byddwn yn dal i fonitro gweithrediad cynlluniau Heddlu Gwent yn ofalus.

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i Wasanaeth yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20% yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015.

Mae Rhaglen Gwerth yr Heddlu (Valuing the Police) HMIC wedi olrhain sut mae heddluoedd yn bwriadu gwneud arbedion i fodloni'r galw cyllidebol hwn pob blwyddyn ers haf 2011. Mae'r adroddiad hwn yn nodi beth a ganfuom yn ei drydedd flwyddyn.

Canolbwyntiodd ein hymchwiliad ar dri chwestiwn:

1. Sut mae'r heddlu yn ymateb i'r lleihad yn y gyllideb?

2. Beth yw'r effaith ar gyfer y gweithlu a'r cyhoedd?

3. Sut mae'r heddlu yn rheoli risgiau presennol ac yn y dyfodol?

I ateb y cwestiynau hyn, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi'r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniant gan yr heddlu ac o ganlyniad i'r toriadau, ac wedi cyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Buom hefyd yn cyfweld y Prif Gwnstabl, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac arweinyddion prif swyddogion ar gyfer cyllid, newid, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu, a chynnal grwpiau ffocws gyda staff a swyddogion eraill.

Ceir casgliadau a phatrymau cenedlaethol ar draws y 43 heddlu yn ein hadroddiad thematig, *Policing in Austerity: Rising to the Challenge*, sydd ar gael o www.hmic.gov.uk.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gwent.